Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

POLICE AND CRIME PANEL

PANEL HEDDLU A THROSEDD

# Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Dydd Gwener, 20 Medi 2013 at 1.00 pm
Bodlondeb, Conwy

# RHAGLEN

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

2. **Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**

   Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth** a **natur** eu cysylltiadau personol.

3. **Materion Brys**

   Rhybudd o faterion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4. **Cofnodion** (Tudalennau 3 - 10)

   Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir

5. **Ystyried adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogi)**

   **a)** Penodi Cadeirydd (Tudalennau 11 - 12)

6. **Ystyried adroddiadau gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru:**

   **a)** Grandawiad Cadarnhau ar gyfer Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd *(i ddilyn)*

   **b)** Diweddariad gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd (gan gynnwys diweddariad ar Gynllun Heddlu a Throsedd a Chynllun y Ddalfa) *(i ddilyn)*

   **c)** Diweddariad ar yr Adolygiad o Wariant a'r Cynllun Arbedion (Tudalennau 13 - 16)

   **d)** Diweddariad ar Gyllideb 2013/14 (Tudalennau 17 - 20)

   **e)** Cyflwyniad gan y Prif Arolygydd Jane Banham am Recriwtio'r Heddlu

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

## 7. Ystyried adroddiadau'r Awdurdod Cynnal

**a)** Crynodeb o'r Cwynion a Dderbyniwyd (Tudalennau 21 - 24)

**b)** Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 25 - 27)

**c)** Cadarnhau'r Cyfarfodydd i Ddod

Dydd Llun, 11 Tachwedd 2013@ 10.00 am
Dydd Llun, 16 Rhagfyr 2013@ 2.00 pm (sylwch fod yr amser wedi newid – 10.00 am yn wreiddiol)
Dydd Llun, 20 Ionawr 2014 @ 10.00 am
Dydd Llun, 17 Mawrth 2014 @ 2.00 pm (sylwch fod yr amser wedi newid – 10.00 am yn wreiddiol)
Dydd Llun, 2 Mehefin 2014 @ 10.00 am (sylwch fod y dyddiad wedi newid – 19 Mai 2014 yn wreiddiol)

## 8. Adborth o Ddigwyddiad Hyfforddi a Datblygu CLlLC (y Cynghr. Colin Powell/Amanda Bragg)

Aelodau'r Panel

| | |
|---|---|
| Cyng Glenys Diskin (Is-Gadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Amanda Bragg | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Philip C. Evans Y.H. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng Terry Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng William T. Hughes | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Cyng Charles Jones | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Colin Powel | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Bill Tasker | Cyngor Sir Ddinbychl |
| Cyng Gethin Williams | Cyngor Gwynedd |
| Patricia Astbury | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| Timothy Rhodes | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Mawrth, 4 Mehefin 2013 am 2.00 pm
Bodlondeb, Conwy

| | | |
|---|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd William Knightly (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| | Pat Astbury | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| | Cynghorydd Amanda Bragg | Cyngor Sir y Fflint |
| | Cynghorydd Bill Cowie | Cyngor Sir Ddinbych |
| | Cynghorydd Glenys Diskin | Cyngor Sir y Fflint |
| | Cynghorydd Terry Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| | Cynghorydd Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| | Cynghorydd William T Hughes | Cyngor Sir Ynys Môn |
| | Cynghorydd Charles Jones | Cyngor Gwynedd |
| | Cynghorydd Colin Powell | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| | Cynghorydd Gethin Williams | Cyngor Gwynedd |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Anna Humphreys | Prif Weithredwr (Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru) |
| | Kate Jackson | Prif Swyddog Cyllid (Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru) |
| | Winston Roddick | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **Swyddogion:** | Ken Finch | Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogi) |
| | Dawn Hughes | Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor |
| | Richard Jarvis | Cyfreithiwr |
| | Sali Morris-Pritchard | Cymhorthydd Gweinyddol |

38. **PENODI CADEIRYDD**

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid penodi'r Cynghorydd William Knightly (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) yn Gadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2013/14.

**PENDERFYNWYD-**
**Penodi'r Cynghorydd William Knightly yn Gadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2013/14.**

39. **PENODI IS-GADEIRYDD**

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid penodi'r Cynghorydd Glenys Diskin (Cyngor Sir y Fflint) yn Is-gadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2013/14.

**PENDERFYNWYD-**

**Penodi'r Cynghorydd Glenys Diskin yn Is-gadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2013/14.**

## 40. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Timothy Rhodes (Aelod Annibynnol Cyfetholedig).

## 41. DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL

Dim.

## 42. MATERION BRYS

Dim.

## 43. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2013 i'w cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD –**

**Cymeradwyo bod cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2013 yn gofnod cywir.**

## 44. YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AR LAFAR GAN GOMISIYNYDD YR HEDDLU

Rhoddodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHT) yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am ei weithgareddau gwaith diweddar, oedd yn cynnwys y canlynol:

- Paratoi Adroddiad Blynyddol CHT
- Parhau i ddatblygu Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (OPCC)
- Penodi Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd (DCHT) – cafwyd 31 o geisiadau ar gyfer y swydd, a bydd y cyfweliadau yn cael eu cynnal yn nechrau mis Gorffennaf 2013.
- Aethpwyd i gyfarfod gweinidogion yng Nghaerdydd – y Comisiynydd oedd yr unig un i beidio anfon Dirprwy i'r cyfarfod.
- Roedd CHT wedi ymweld â 5 o'r 6 Awdurdod Lleol i ateb cwestiynau gan Gynghorwyr a byddai'n croesawu'r cyfle i ymweld â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
- Mynd i amryw o gyfarfodydd/cynadleddau gan gynnwys:

- Cynhadledd Blynyddol Trefniadau Gwarchod y Cyhoedd Amlasiantaeth (MAPPA).
- Cyfarfod yn ymwneud a'r Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Cynhadledd Uwch-arolygwyr Cymru Gyfan.
- Cyfarfod gyda Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg.
- Ymweliad â Chanolfan Hyfforddiant Achub Mynydd Gogledd Cymru yn Nyffryn Ogwen
- Ymweliad â'r Uned Troseddau Technoleg Uwch yng Ngogledd Cymru a'r orsaf heddlu newydd yn Llangefni.
- Cyfarfod gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

- Mae'r CHT hefyd wedi parhau i ddatblygu partneriaethau gydag amryw o gyrff/sefydliadau
- Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth – roedd y CHT wedi cael nifer o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, yn enwedig mewn perthynas â hawlio treuliau
- Gwirfoddolwyr y Ddalfa – cafwyd tua 50 o geisiadau hyd yma.

Rhoddodd y CHT wybod i'r Panel Heddlu a Throsedd (PHT) oherwydd ei fod yn gyflogwr staff yr heddlu yn dilyn yr etholiad ym mis Tachwedd 2012, ei fod yn y broses o drefnu Trosglwyddiadau Cam 2 i'r Prif Weithredwr. Bydd angen cwblhau hyn cyn Ebrill 2014 ac mae angen cyflwyno strategaeth ar gyfer trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol ym mis Medi 2013. Bydd yr wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi i'r PHT yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Gofynnodd y PHT am i unrhyw ddatganiadau i'r wasg o'r OPCC gael eu hanfon at holl aelodau'r Panel er gwybodaeth.

Diolchodd y CHT i aelodau'r PHT am eu cefnogaeth barhaus a'u hadborth adeiladol.

## 45. GWRANDAWIAD CADARNHAU AR GYFER Y PRIF SWYDDOG CYLLID

Roedd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHT) benodi Prif Swyddog Ariannol.

Roedd angen i'r Panel Heddlu a Throsedd (PHT) gynnal gwrandawiadau cadarnhau cyhoeddus mewn perthynas â'r penodiad hwn, lle'r oedd rhaid i'r ymgeisydd ymddangos i ateb cwestiynau ynglŷn â'r penodiad. Yn dilyn y gwrandawiad, roedd angen i'r PHT adolygu'r penodiad arfaethedig a chyflwyno adroddiad i'r CHT am y penodiad.

Amlinellodd y CHT gyfrifoldebau'r swydd a'r broses benodi a gynhaliwyd a gofynnodd i'r PHT ystyried penodiad arfaethedig Kate Jackson fel Prif Swyddog Cyllid.

Cadarnhaodd y CHT y bydd y swydd yn un rhan amser i ddechrau, ac atebodd y cwestiynau a godwyd gan y PHT.

Anerchodd Kate Jackson y PHT ac atebodd y cwestiynau a ofynnwyd gan Aelodau'r Panel a'r Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogi).

**PENDERFYNWYD –**

**Argymell i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd y dylid penodi Kate Jackson fel Prif Swyddog Cyllid.**

46. **ADRODDIAD BLYNYDDOL GAN Y COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD**

Cyflwynodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHT) ei Adroddiad Blynyddol i'r Panel Heddlu a Throsedd (PHT), fel sy'n ofynnol dan Adran 12 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf).

Rhoddodd yr adroddiad grynodeb o sut y mae'r CHT wedi gwneud ei swyddogaethau hyd yma a'r cynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod hwnnw wrth ddiwallu amcanion yr heddlu a throsedd yn y Cynllun Heddlu a Throsedd.

Amlygwyd y meysydd canlynol o'r Adroddiad Blynyddol i'r PHT:

- Buddsoddi mewn 51 o swyddi heddlu ychwanegol, 37 ohonynt yn swyddogion heddlu lleol; 6 ohonynt yn gweithio i'r Tîm Amethyst; 3 ohonynt yn ymdrin â throseddau gwledig; 3 wedi'u neilltuo i achosion trais domestig; a 2 wedi'u neilltuo i archwiliadau troseddol.
- Datblygu Panel Troseddau Gwledig (dim ond un Comisiynydd arall sydd wedi cynnwys Cynllun Troseddau Gwledig)
- Sefydlu tîm penodedig (Amethyst), fydd yn archwilio i achosion o drais a throseddau rhywiol a rhoi cefnogaeth i'r dioddefwr mewn modd sensitif a phriodol.

Ystyriodd y PHT yr adroddiad a thrafodwyd y materion a ganlyn:

- Yr angen i gael gwybod am ddatblygiadau mewn perthynas â buddsoddi mewn 51 o swyddi heddlu ychwanegol.
- Y broses recriwtio ar gyfer y Tîm Amethyst oherwydd bod angen gweithwyr profiadol.
- Croesawir y cynllun ymglymiad cymunedol
- Ffigurau perfformiad 2012/13 a'r lleihad mewn troseddau – gofynnwyd a yw'r lleihad oherwydd gostyngiad mewn rhoi gwybod am droseddau, yn hytrach na lleihad gwirioneddol mewn trosedd ac anrhefn. Nododd y CHT bod y ffigurau perfformiad hefyd yn cyd-fynd ag arolwg a gynhaliwyd gan y Swyddfa Gartref.
- Cyflogau cychwynnol swyddogion heddlu newydd er mwyn denu'r ymgeiswyr gorau.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r Strategaeth Stadau, nododd CHT er na fydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal, y bydd adolygiad cynhwysfawr yn cael ei gynnal i sicrhau bod y strategaeth yn effeithiol.

Holodd yr Aelodau hefyd ynglŷn â derbyn eiddo coll mewn gorsafoedd heddlu lleol. Cytunodd y CHT i edrych i mewn i'r polisi mewn perthynas â hyn.

**PENDERFYNWYD –**

**(a) Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.**

**(b) Rhoi gwybod i Banel yr Heddlu a Throsedd am y datblygiadau mewn perthynas â buddsoddi mewn 51 o swyddi heddlu ychwanegol.**

47. **TREFN GWYNO**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogi) Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fersiwn drafft y Drefn Gwyno i Banel yr Heddlu a Throsedd (PHT).

Mae gan y PHT swyddogaeth statudol wrth ymdrin, a datrys cwynion penodol yn erbyn Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd. Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i ddirprwyo rhai cyfrifoldebau i Gyfarwyddwr Strategol yr Awdurdod Cynnal (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogi), mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, Is-gadeirydd ac Aelod Annibynnol y PHT.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Strategol sylw at y tri chategori gwahanol o gwynion a rhoddwyd gwybod i'r PHT y bydd pob cwyn difrifol neu gwynion yn ymwneud ag ymddygiad yn cael eu cyfeirio yn awtomatig i'r Comisiwn Cwynion Heddlu Annibynnol i'w hystyried.

Cefnogodd y PHT y broses a gynigiwyd ar gyfer ymdrin â chwynion a gofynnwyd am gael enwebu Pat Astbury yn Aelod Annibynnol.

Gofynnodd y PHT, os yw mater yn un brys, ac nad yw'r Cadeirydd, Is-gadeirydd neu'r Aelod Annibynnol ar gael, y gall y Cyfarwyddwr Strategol ddewis unigolion o'r Panel. Gofynnwyd hefyd os bydd Aelod Annibynnol Cyfetholedig yn cael ei ethol fel Cadeirydd neu Is-gadeirydd y gall y Cyfarwyddwr Strategol ymgynghori ag Aelod etholedig o'r Panel i sicrhau cymesuredd.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Cymeradwyo Trefn Gwynion Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, ar ôl cynnwys y troednodiadau a ganlyn yn ymwneud â'r broses ymgynghori ym mharagraff 2.1 y Drefn Gwyno:**

- **Os credir bod mater yn un brys, ac nad yw'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd na'r Aelod Annibynnol ar gael, yna bydd y Cyfarwyddwr Strategol yn dewis unigolion o aelodaeth y Panel.**
- **Os bydd Aelod Annibynnol Cyfetholedig yn cael ei ethol yn Gadeirydd neu'n Is-gadeirydd, bydd y Cyfarwyddwr Strategol yn ymgynghori gydag Aelod etholedig o'r Panel i sicrhau cymesuredd**

**(b) Enwebu Pat Astbury fel yr Aelod Annibynnol Cyfetholedig.**

**(c) Diwygio Cylch Gorchwyl Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn unol â hyn.**

48. **LWFANSAU A THREULIAU AELODAU**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogi) adroddiad oedd yn gofyn a ddylai Trefniadau Panel y PHT ddarparu ar gyfer talu lwfansau i Aelodau'r Panel.

Ar hyn o bryd, nid yw Trefniadau Panel y PHT yn darparu ar gyfer talu unrhyw lwfans, dim ond ar gyfer treuliau a chynhaliaeth Aelodau'r PHT. Ond, gall Awdurdodau Cynnal Panelau Heddlu a Throsedd gael hyd at £920 y flwyddyn, ar gyfer pob Aelod Panel, i bwrpasau talu treuliau.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Strategol wybod i'r PHT bod tri o'r pedwar PHT yng Nghymru yn talu lwfansau i Aelodau'r Panel.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau hefyd, yng Nghymru na all yr Awdurdod Gynnal ddefnyddio ei adnoddau ei hun i gefnogi'r Panel ac awgrymwyd y gellir defnyddio cyfraddau tâl Panel Cydnabyddiaeth Tâl Annibynnol Cymru (IRPW) fel sail ar gyfer y lwfans.

Cytunodd y PHT y dylai Trefniadau'r Panel wneud darpariaeth ar gyfer talu lwfansau ac y dylid cyflwyno taliadau trwy ffioedd dyddiol o £198 (£99 am hanner diwrnod), gydag uchafswm sydd gyfwerth â 5 diwrnod llawn y flwyddyn. Hefyd, byddai gan Aelodau'r PHT hawl i hawlio lwfans teithio ar gyfer dyletswyddau a gymeradwywyd.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategol nad oes gan yr IRPW awdurdod dros y PHT, ac felly gall aelodau'r Panel gael lwfans ychwanegol yn ogystal â chyflog uwch.

**PENDERFYNWYD-**
**(a) Diwygio Trefniadau Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru i ddarparu ar gyfer talu lwfansau i aelodau'r panel fel a ganlyn:**

- **Dylid talu ffi ddyddiol o £198 (£99 am hanner diwrnod), gydag uchafswm sydd gyfwerth â 5 diwrnod llawn y flwyddyn.**
- **Mae gan Aelodau'r Panel Heddlu a Throsedd yr hawl i hawlio costau teithio ar gyfer dyletswyddau a gymeradwywyd.**

**(b) Dylid rhoi ôl-dâl lwfans ar gyfer cyfarfod cyntaf Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.**

**(b) Diwygio Cylch Gorchwyl Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn unol â hyn.**

49. **ADOLYGU AELODAETH PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogi) adroddiad i Banel yr Heddlu a Throsedd (PHT) oedd yn rhoi dadansoddiad o aelodaeth Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2013, gan ystyried canlyniad yr etholiad yn Ynys Môn.

Mae gan Gylch Gorchwyl y PHT ddarpariaeth benodol i adolygu aelodaeth y PHT o fewn 12 mis i Etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, yn unol â'r darpariaethau yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 a Rheoliadau Panel Heddlu a Throsedd (Enwebiadau, Penodiadau a Hysbysiadau) 2012. Bydd angen i'r adolygiad ystyried y gofyniad parhaus ar gyfer cydbwysedd gwleidyddol y PHT.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Strategol sylw at atodiadau'r adroddiad, oedd yn dangos y fethodoleg y tu ôl i ddadansoddiad yr aelodaeth. Esboniwyd o ran yr ymarfer dyrannu, bod y canlyniad yn awgrymu y byddai grwpiau Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn yn aros yr un fath. Ond, bydd rhaid i Gonwy a Sir Ddinbych newid eu haelodau enwebedig o Lafur i Annibynnol ac o Annibynnol i Lafur, yn y drefn honno.

Felly, o ran yr aelodaeth bresennol, bydd y Cynghorydd Bill Cowie (CSDd) a'r Cynghorydd Chris Hughes (CBSC) yn cael eu disodli. Rhoddwyd gwybod i'r PHT y bydd y Cynghorydd Philip C. Evans Y.H (CBSC) yn disodli'r Cynghorydd Hughes; ond ni fydd y newid hwn yn digwydd nes y bydd Cyngor Sir Ddinbych wedi cytuno ar eu henwebiad yn eu cyfarfod Cyngor ar 9 Gorffennaf 2013.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Strategol wybod y bydd rhaid i'r Swyddfa Gartref gymeradwyo'r newidiadau i aelodaeth y PHT.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Bill Cowie a'r Cynghorydd Chris Hughes am gyfrannu at y PHT.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Cymeradwyo adolygiad aelodaeth Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gweithredu'r newidiadau i'r grwpiau yng Nghonwy a Sir Ddinbych yn unol â hyn.**

**(b) Pan fydd penodiadau wedi'u cadarnhau, dylid cyflwyno aelodaeth Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru i'r Swyddfa Gartref i'w gymeradwyo.**

## 50. SESIWN HYFFORDDI/DATBLYGU CENEDLAETHOL - GORFFENNAF 2013

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor raglen ddrafft Sesiwn Hyfforddi/Datblygu Cenedlaethol y Panelau Heddlu a Throsedd ar gyfer 15 Gorffennaf 2013.

Rhoddwyd gwybod i'r PHT ei bod yn debygol y bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal yng Nghanolbarth Cymru (lleoliad i'w gadarnhau). Ond, roedd peth pryder ynglŷn â lleoliad y digwyddiad a theimlwyd y byddai Caerdydd yn well lleoliad oherwydd y cysylltiadau cludiant cyhoeddus.

**PENDERFYNWYD -**

> **Anfon pryderon Panel yr Heddlu a Throsedd mewn perthynas â lleoliad y Sesiwn Hyfforddi/Datblygu Cenedlaethol ar 15 Gorffennaf 2013 at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.**

51. **YSTYRIED RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Panel Heddlu a Throsedd (PHT).

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod cyfarfod nesaf y PHT wedi'i drefnu ar gyfer 9 Medi 2013; ond roedd yn debygol y byddai'n rhaid cynnal gwrandawiad cadarnhau ar gyfer y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd ym mis Awst 2013.

**PENDERFYNWYD-**

> **Dylai'r Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor gysylltu â Phrif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i gadarnhau dyddiad ar gyfer gwrandawiad cadarnhau'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd.**

(Daeth y cyfarfod I ben am 4.00 pm)

# EITEM RHAGLEN 5a

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **DYDDIAD:** | 20 Medi 2013 |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Ken Finch – Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogi) - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| **TESTUN:** | Penodi Cadeirydd |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Rhoi gwybod i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru bod y Cynghorydd William Knightly, Cadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi ymddiswyddo o'r Panel ar unwaith.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Ail-benodwyd y Cynghorydd Knightly fel Cadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn y cyfarfod diwethaf ar 4 Mehefin 2013, ond oherwydd problemau iechyd parhaus, mae'r Cynghorydd Knightly wedi penderfynu ymddiswyddo.

2.2 Yn unol â'r darpariaethau yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 a Rheoliadau Paneli'r Heddlu a Throsedd (Enwebiadau, Penodiadau, Hysbysiadau) 2012, cynhaliodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru adolygiad o aelodaeth y Panel yn ei gyfarfod diwethaf. Nid oed y dadansoddiad o seddau ar gyfer pob grŵp gwleidyddol wedi newid, sef 3 yr un ar gyfer aelodau Annibynnol a Llafur, 2 i Plaid Cymru ac 1 yr un ar gyfer aelodau Ceidwadol a Democratiaid Rhyddfrydol, ac nid oedd nifer yr Aelodau i gael eu penodi gan bob Cyngor wedi newid, sef 2 yr un ar gyfer Conwy, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam ac 1 yr un ar gyfer Sir Ddinbych ac Ynys Môn. Cadarnhaodd tabl gan ddefnyddio d'hondt y seddau ar gyfer pob grŵp gwleidyddol ar gyfer pob Awdurdod Lleol.

2.3 Felly, yn unol â'r uchod, mae gofyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy benodi aelod o'r Grŵp Ceidwadol i sicrhau cydbwysedd gwleidyddol parhaus Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

2.4 Oherwydd bod angen cymeradwyaeth y Swyddfa Gartref i benodi Aelodau etholedig i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, mae Swyddogion yn argymell bod y Cynghorydd Glenys Diskin, yr Is-Gadeirydd presennol yn dod yn Gadeirydd Dros Dro a bod penodiad Cadeirydd yn cael ei ohirio tan y cyfarfod nesaf ar 11 Tachwedd 2013, fel bod gan y Panel nifer llawn o Aelodau.

## 3. ARGYMHELLION / DEWISIADAU

3.1 Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn gohirio penodi Cadeirydd tan y cyfarfod nesaf ar 11 Tachwedd 2013, a bod y Gynghorydd Glenys Diskin, yr Is-Gadeirydd presennol, yn dod yn Gadeirydd Dros Dro yn y cyfamser.

## 5. YMGYNGHORI

5.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad â'r Cynghorydd Glenys Diskin, Is-Gadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, sy'n hapus i gymryd rôl Cadeirydd Dros Dro yn y cyfamser.

## 6. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

6.1 Dim.

## 7. RISG

7.1 Er bod Cylch Gorchwyl Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn nodi y penodir Cadeirydd newydd yn y cyfarfod nesaf ac y caiff ei ddewis o blith Aelodau'r Panel, y tro hwn byddai Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn manteisio o ohirio'r penodiad hwn, nes bod gan y Panel nifer llawn o Aelodau i ddewis ohonynt.

## 8. CYHOEDDI

8.1 Caiff aelodaeth y Panel, gan gynnwys penodiad Cadeirydd, ei gyhoeddi ar wefan Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, yn dilyn cymeradwyaeth gan y Swyddfa Gartref.

## Adroddiad gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Diweddariad ar yr Adolygiad o Wariant a'r Cynllun Arbedion** |
| **Cyfarfod:** | **Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, 20 Medi 2013** |
| **Awdur:** | **Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid** |

**1. Cyflwyniad**

1.1 Nod yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i aelodau'r Panel yn dilyn cyhoeddiad y Llywodraeth ar gynlluniau gwariant 2015/16. Rhagwelir y bydd y ffigyrau manwl ar gael ym mis Medi 2013, a bydd diweddariad pellach yn cael ei baratoi ar gyfer aelodau'r Panel erbyn cyfarfod mis Tachwedd.

**2. Argymhellion**

2.1 Nodi'r £0.375miliwn ychwanegol sydd angen ei arbed yn dilyn yr Adolygiad o Wariant a'r cynlluniau arbedion drafft ar gyfer 2014-15 a 2016-17.

**3. Y Diweddaraf yn dilyn Adolygiad o Wariant y Llywodraeth**

3.1 Mi wnaeth Canghellor y Trysorlys gyflwyno ei Gynllun Cynhwysfawr o Wariant ar gyfer 2015-16 ar 26 Mehefin 2013 a rhagwelir y bydd y ffigyrau manwl yn cael eu rhyddhau ym mis Medi 2013. Mae'r wybodaeth yr ydym wedi'i chael gan Y Swyddfa Gartref yn nodi mai'r gostyngiad i gyllideb yr heddlu ar gyfer 2014/15 fydd 3.3% a 3.2% yn 2015/16. Bydd y ffigyrau ar gyfer yr heddluoedd unigol yn cael eu rhyddhau yn hwyrach yn y flwyddyn. Dyma'r amcangyfrifon gorau o ran gostyngiadau i Grant yr Heddlu ar gyfer y ddwy flwyddyn yma ond fel y profwyd y llynedd gall arian arall effeithio ar ddyraniad Grant yr Heddlu. Y rhagdybiaeth a wnaed yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) a gyflwynwyd ym mis Ionawr oedd gostyngiad o 3% yn y naill flwyddyn a'r llall.

3.2 Y prif ragdybiaethau eraill a gafodd eu cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gyflwynwyd yng nghyfarfod mis Ionawr ble gosodwyd y gyllideb oedd cynnydd o 1% mewn tâl, cynnydd o 2% mewn chwyddiant (gyda chynyddiadau uwch penodol ble bo angen) a chynnydd o 4% i'r Praesept. Erbyn hyn mae'r tablau yn 2.3 wedi'u diweddaru i gynnwys yr amcangyfrifon newydd ar gyfer y Grant yn dilyn cyhoeddiadau'r ACW ac eglurhad pellach.

3.3 Hefyd mi wnaeth y Canghellor gyhoeddi y byddai Treth y Cyngor yn cael ei rewi unwaith eto yn Lloegr ond y byddai grantiau ychwanegol ar gael i leddfu'r effaith. Mae'r rheolau ynghylch Treth y Cyngor yn wahanol yng Nghymru ac maent yn cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru. Fe gyhoeddir manylion y cynllun yn Lloegr yn hwyrach ymlaen yn y flwyddyn, ond hyd yma nid oes awgrymiadau gan Lywodraeth Cymru eu bod am gapio lefelau Treth y Cyngor. Byddai pob gostyngiad o 1% yng nghynnydd Treth y Cyngor yn ostyngiad o £0.600miliwn i'r Praesept.

3.4 Mae yna lefel uchel o ansicrwydd yn dal i fodoli ynghylch 2016/17 ond os caiff y newidiadau i'r Yswiriant Cenedlaethol, yn gysylltiedig â'r cyfraniadau Pensiwn, a gyhoeddwyd yn flaenorol gan y Canghellor eu cytuno byddai angen gwneud arbediad ychwanegol o £2.7miliwn ar ben yr arbediad o £1.9miliwn a ragwelwyd yn barod.

3.5 Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau uchod, mae angen arbed £0.375miliwn yn ychwanegol dros y 2 flynedd nesaf oherwydd y cynnydd yn y rhagdybiaethau yng ngostyngiad y Grant.

**4. Cynllun Arbedion**

4.1 Roedd y CATC a gyflwynwyd ym mis Ionawr yn cynnwys cynllun arbedion drafft ar gyfer 2013/14. Bellach mae hwn wedi'i adolygu a'i ddiweddaru ac mae cynllun drafft 2015-16 wedi'i baratoi.

4.2 Mae yna lawer iawn o ansicrwydd yn dal i fodoli ynghylch 2016/17. Y rhagamcaniad cychwynnol yn seiliedig ar y rhagdybiaethau fel y nodwyd uchod oedd toriad o £1.9miliwn i'r gyllideb. Bydd y cynlluniau a gyhoeddwyd i gynyddu cyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol cyflogwyr yn ychwanegu £2.7miliwn at y gwariant ac felly rhagwelir ar hyn o bryd y byddai rhaid gwneud £4.6miliwn o arbedion. Fodd bynnag mae'r fformiwla ariannu hefyd yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Mae'n anodd iawn amcangyfrif lefel y grant mor bell ymlaen a hyn o ystyried yr hinsawdd gyfredol, yn enwedig oherwydd mai 2016-17 fydd y flwyddyn ariannol lawn gyntaf yn dilyn yr Etholiad Cyffredinol ym mis Mai 2015. Mae'r Heddlu yn ystyried opsiynau ar gyfer 2016-17 ond nid yw'r manylion ar gael eto.

4.3 Mae'r tablau isod yn nodi manylion y rhagdybiaethau a'r cynllun arbedion cyfredol a bydd y rhain yn cael eu datblygu a'u cadarnhau fel rhan o'r broses o osod y gyllideb.

**Rhagdybiaethau**

| | **2014-15** | **2015-16** | **2016-17** |
|---|---|---|---|
| **Chwyddiant Tâl** | 1% | 1% | 1% |
| **Chwyddiant Cyffredinol** | 2% - 5% | 2% - 5% | 2% - 5% |
| **Toriadau i'r Grant Sylfaen** | -3.30% | -3.20% | -3.00% |
| **Praesept** | 4% | 4% | 4% |

**Yr Arbedion sydd Angen eu Gwneud i'r Gyllideb:**

Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau uchod, dyma'r arbedion sydd angen eu gwneud i'r gyllideb:

| | **2014-15 £miliwn** | **2015-16 £miliwn** | **2016-17 £miliwn** |
|---|---|---|---|
| **Arbedion i'w gwneud** | 2.552 | 2.273 | 4.600 |

**Risgiau:**

| | £miliwn | Nodiadau: |
|---|---|---|
| **Grant/Fformiwla Llawr** | 11.0 | Adolygiad o'r fformiwla ar y gweill |
| **Grantiau Penodol** | amh | Angen lleihau'r costau cysylltiedig os cânt eu lleihau |
| **Praesept 1%** | 0.6 | Angen gwneud arbedion ychwanegol fesul 1% o ostyngiad |
| **Grantiau Sylfaen 1%** | 0.8 | Angen gwneud arbedion ychwanegol fesul 1% o ostyngiad |
| **2016-17 - amcangyfrif o'r toriad** | 4.6 | Mae £2.7miliwn o hwn yn gysylltiedig â'r newidiadau i'r YG. Dim cynllun mewn lle. |

## 2.4 Arbedion fesul blwyddyn

2.4.1 Yn y tabl canlynol ceir manylion y toriadau a gynlluniwyd yn wreiddiol a'r diweddaraf o ran y rhagamcaniadau cyfredol. Mae'r meysydd heb fod yn staff wedi'u dadansoddi er mwyn adnabod rhagor o arbedion posibl.

2.4.2 Byddai modd cyflawni'r arbedion a adnabuwyd yn 2014-15. Fodd bynnag mae'r swm o £1.9miliwn ar gyfer 2015-16 yn peri pryder ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynrychioli'r mwyafrif o'r arbedion sydd angen eu gwneud yn ystod y flwyddyn. Mae meysydd eraill ble gellir gwneud oddeutu £1.988miliwn o arbedion wedi'u hadnabod ond mae'n rhaid ailedrych ar y rhain cyn gellir eu cynnwys yn y cynllun arbedion.

**Cynllun Arbedion Drafft ar gyfer 2014 i 2016**

| Disgrifiad | 2014-15 £'000 gwreiddiol | 2014-15 £'000 diwygiedig | 2015-16 £'000 gwreiddiol | 2015-16 £'000 diwygiedig | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Arbediad** | **2,323** | **2,552** | **2,127** | **2,273** | |
| Prosiectau ac Adolygiadau 2011+ | **-534** | **-412** | **-24** | **-24** | Cam 5 Prosiect 2011+ wedi'i adnabod |
| Adeiladau | **-423** | **0** | **-159** | **-653** | Mae'r arbediad gwreiddiol wedi'i gario drosodd i 2015-16; mae angen i Adolygiad yr Ystâd ei gadarnhau. |
| Lwfansau | **-716** | **-683** | **-358** | **-308** | Cafwyd cadarnhad yn Ebrill 2013 y byddai'r CRTP yn cael ei ddiddymu dros 3 blynedd. Ni wyddwn hyn adeg gosod y gyllideb felly bydd gostyngiad o 2 flynedd yng nghyllideb 2014-15 |
| Arian wrth Gefn ar gyfer Goramser | **-150** | **-150** | | | Newidiadau disgwyliedig i'r gofynion |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | **-300** | **-300** | | | Cofrestrad awtomatig â chynlluniau pensiwn wedi'i ohirio tan 2017. Ymarfer gwirfoddol i'w gynnal yn 2013-14 |
| Technoleg Gwybodaeth | **-200** | **-200** | | | Gostyngiad posib wedi'i adnabod drwy adolygu contract TG |
| Technoleg Gwybodaeth | **0** | **-322** | | | Rhaglen Adnewyddu |
| Pensiynau - Ymddeol ar sail Salwch | **0** | **-104** | | | Lleihau'r gyllideb a defnyddio'r cronfeydd wrth gefn os bydd angen. |
| Incwm | **0** | **-253** | | | Mwy ar gyfer Sylfaen ASU a chynnydd o £188mil i dargedau incwm |
| Cerbydau a Thrafnidiaeth | | | **-378** | **-378** | Adolygu cyllidebau Cerbydau a Theithio'r Heddlu |
| Adolygiad Winsor | | | **-908** | **-908** | Hwn yw'r amcangyfrifiad gwreiddiol o'r arbedion yn bennaf ar lwfans gweithio penwythnosau Staff Ategol. Dim mwy o wybodaeth ar gael. |
| Cydweithio-RMS | | | **-300** | **-300** | Amcangyfrif cychwynnol; arbedion i'w cadarnhau. |
| Arall | **0** | **-128** | | | Arbedion mewn meysydd eraill. |
| **Balans** | **0** | **0** | **0** | **-298** | |

## Adroddiad gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Diweddariad ar Gyllideb 2013/14 (fel yr oedd ar 30.6.2013)** |
| **Cyfarfod:** | **Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, 20 Medi 2013** |
| **Awdur:** | **Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid** |

### 1. Cyflwyniad

1.1 Nod y papur hwn yw rhoi diweddariad i aelodau'r Panel ar gyllideb blismona Gogledd Cymru ar gyfer chwarter cyntaf 2013/14.

### 2. Argymhellion

2.1 I nodi'r adroddiad.

### 3. Y diweddaraf ar gyllideb 2013/14

3.1 Fe gytunwyd ar 21ain Ionawr 2013, ym mhresenoldeb y Panel, i osod cyllideb Heddlu Gogledd Cymru ar £141.705miliwn. Roedd hyn yn gynnydd cyffredinol o 0.57% ac roedd yn cynnwys arbedion gwerth £4.634miliwn a buddsoddiad o £1.777miliwn ar gyfer recriwtio 51 Swyddog ychwanegol.

3.2 Cafodd y gyllideb ei dosrannu i ddalwyr y cyllidebau cyn diwedd Mawrth ac maent yn ateb yn ôl yn rheolaidd i'r Bwrdd Gweithredol Strategol, Bwrdd Gweithredol yr Heddlu a Phwyllgor Busnes yr Heddlu.

3.3 Ar hyn o bryd fe ragwelir y bydd tanwariant o £1.7miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Y prif gyfranogwyr i'r ffigwr hwn yw tâl, lwfansau, TG ac incwm. Ceir manylion y rhain isod a cheir rhagamcaniad llawn ar ddiwedd yr adran.

3.4 **Tâl Swyddogion Heddlu** - Mae'r polisi o recriwtio swyddogion yn gynnar er mwyn i swyddogion hyfforddedig gymryd lle'r swyddogion sy'n ymddeol yn parhau. Mi wnaeth recriwtio'r 51 o swyddogion ychwanegol a gytunwyd adeg gosod y gyllideb gynyddu'r nifer o swyddogion a oedd angen eu recriwtio. Bydd yr Heddlu yn parhau i recriwtio drwy gydol y flwyddyn a disgwylir y bydd 72 o swyddogion newydd yn cael eu cyflogi. Mae'r duedd bod swyddogion yn ymddeol cyn gynted a byddant yn cyrraedd eu dyddiad ymddeol yn parhau ac mae'r nifer o swyddogion sy'n ymddeol ar sail salwch hefyd wedi cynyddu ychydig. Mae swyddogion hefyd yn cael eu colli i gyfleoedd Secondiad. Gan gymryd yr holl ffactorau hyn i ystyriaeth, fe ragwelir ar hyn o bryd y bydd tanwariant o £0.4miliwn yn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. Gwir gryfder y gweithlu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol fydd 42 yn fwy na'r nifer arferol, ond 12 o dan fydd y ffigwr mewn gwirionedd o ran Swyddogion y gellir eu hanfon ar ddyletswyddau rheng flaen.

3.5 **Lwfansau –** Yn bennaf gellir priodoli'r arbediad hwn i'r Taliad Trothwy sy'n Seiliedig ar Gymhwysedd a gafodd ei ddiddymu fel rhan o Adolygiad Winsor i dâl swyddogion heddlu ddiwedd mis Mawrth 2013, er bod yna hefyd arbedion rent a lwfans tai wrth i

swyddogion ymddeol. Gellir lleihau'r cyllidebau hyn yn y flwyddyn ariannol nesaf. Amcangyfrif arbediad o £0.405miliwn.

3.6 **Costau eraill heb fod yn staff -** Yn gyffredinol rhagwelir y bydd tanwariant ond fe all hyn newid wrth i ni gael mwy o wybodaeth yn ystod y flwyddyn.

3.7 **Incwm -** Ym mis Mawrth 2013 mi wnaeth Y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru gadarnhau bod grant ar gael ar gyfer plismona'r porthladdoedd a recriwtio mwy o SCCH; mae'r swm sydd ar gael yn uwch na beth oedd yn wreiddiol (0.2miliwn). Mi wnaeth yr incwm ychwanegol a gafwyd, yn bennaf o werthu cerbydau, costau defnyddio Canolfan yr Hofrennydd a Ffioedd Hyfforddi, ychwanegu £0.3miliwn at gyfanswm yr incwm.

| | Cyllideb 2013-14<br>fel yr oedd ar 30.6.13 | Cyllideb BHY 30.6.13 | Gwir BHY 30.6.13 | Amc BHY 30.6.13 | Amr BHY 30.6.13 | Cyllideb Flynyddol 30.6.13 | Rhagamcaniad Blwyddyn Gyfan 30.6.13 | Amrywiant DYF 30.6.13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| | **Gwariant** | | | | | | | |
| 1 | **Tâl Swyddogion Heddlu** | 18,178 | 18,009 | 0 | 169 | 72,222 | 71,815 | -407 |
| 2 | **Tâl Staff yr Heddlu** | 3,300 | 3,266 | 110 | -76 | 40,023 | 39,997 | -26 |
| 3 | **Goramser Swyddogion Heddlu** | 485 | 596 | 208 | -319 | 2,338 | 2,463 | 125 |
| 4 | **Goramser Staff yr Heddlu** | 68 | 103 | 40 | -75 | 410 | 485 | 75 |
| 5 | **Lwfanau** | 850 | 652 | 0 | 198 | 3,224 | 2,819 | -405 |
| 6 | **Hyfforddiant** | 185 | 136 | 0 | 49 | 659 | 699 | 40 |
| 7 | **Gweithwyr Eraill** | 163 | 297 | 0 | -134 | 656 | 600 | -56 |
| 8 | **Taliadau Pensiwn Uniongyrchol** | 736 | 540 | 0 | 196 | 2,944 | 2,917 | -27 |
| 9 | **Costau Ynni** | 224 | 200 | 103 | -79 | 1,342 | 1,274 | -68 |
| 10 | **Costau Cynnal Adeiladau** | 1,680 | 1,903 | 0 | -223 | 6,719 | 6,672 | -47 |
| 11 | **Atgyweirio a Chynnal a Chadw Cerbydau** | 219 | 250 | 0 | -31 | 985 | 1,010 | 25 |
| 12 | **Costau Cynnal Cerbydau** | 397 | 628 | 0 | -231 | 2,083 | 1,949 | -134 |
| 13 | **Lwfansau Ceir a Theithio** | 138 | 91 | 30 | 17 | 693 | 721 | 28 |
| 14 | **Uned Cefnogaeth o'r Awyr** | 349 | 399 | 0 | -50 | 1,394 | 1,445 | 51 |
| 15 | **Offer** | 214 | 333 | 0 | -119 | 931 | 955 | 24 |
| 16 | **Dillad a Lifrai** | 106 | 128 | 0 | -22 | 506 | 507 | 1 |
| 17 | **Argraffu a Deunydd Ysgrifennu** | 171 | 127 | 0 | 44 | 589 | 547 | -42 |
| 18 | **TG a Chyfathrebiadau** | 2,362 | 3,775 | 0 | -1,413 | 9,640 | 9,454 | -186 |
| 19 | **Cynhaliaeth** | 62 | 99 | 0 | -37 | 309 | 291 | -18 |
| 20 | **Cyflenwadau a Gwasanaethau Eraill** | 962 | 722 | 0 | 240 | 3,961 | 3,861 | -100 |
| 21 | **Gwasanaethau Fforensig** | 385 | 138 | 111 | 136 | 1,540 | 1,506 | -34 |
| 22 | **Costau Dyledion a Chyfraniadau i'r Cyfalaf** | 476 | 0 | 0 | 476 | 1,904 | 1,904 | 0 |
| 23 | **Arian wrth Gefn ar gyfer Sefyllfaoedd Arbennig** | 138 | 0 | 0 | 138 | 298 | 298 | 0 |
| 24 | **Chwyddiant a Chronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol** | 141 | 0 | 0 | 141 | 230 | 230 | 0 |
| 25 | **Arbedion a Adnabuwyd yn 2014-15** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **Gwariant Gros** | **31,989** | **32,392** | **602** | **-1,005** | **155,600** | **154,419** | **-1,181** |
| | **Incwm** | | | | | | | |
| 26 | **Secondiadau** | -263 | -69 | 0 | -194 | -1,050 | -1,031 | 19 |
| 27 | **Llog ar y Balansau** | -68 | -42 | 0 | -26 | -271 | -313 | -42 |
| 28 | **Incwm** | -527 | -507 | 0 | -20 | -2,386 | -2,697 | -311 |
| 29 | **Grantiau Penodol** | -2,791 | -2,408 | 0 | -383 | -10,635 | -10,843 | -208 |
| | **Cyfanswm yr Incwm** | **-3,649** | **-3,026** | **0** | **-623** | **-14,342** | **-14,884** | **-542** |
| 30 | **Cronfa Wrth Cefn MCP** | 446 | 0 | 0 | 446 | 446 | 446 | 0 |
| | **Gwariant Net** | **28,786** | **29,366** | **602** | **-1,182** | **141,704** | **139,981** | **-1,723** |
| | **Cyfraniad i/(-) o'r Balansau** | | | | | **0** | **-1,723** | **-1,723** |
| 31 | Cyfanswm y Grantiau | -19,895 | -21,274 | 0 | 1,379 | -79,580 | -79,580 | 0 |
| 32 | Treth y Cygor | -15,531 | -15,531 | 0 | 0 | -62,124 | -62,124 | 0 |
| | Cyllid | -35,426 | -36,805 | 0 | 1,379 | -141,704 | -141,704 | 0 |

## 4. Cyfalaf

4.1 Mae’r gwariant o’r Gyllideb Gyfalaf yn tueddu i fod yn isel yn y chwarter cyntaf. Y gwir wariant oedd £1miliwn yn erbyn cyllideb o £13.3miliwn.

4.2 **Yr Ystâd** - Y ddau brif brosiect yn Rhaglen yr Ystâd yw adeiladu gorsaf heddlu newydd Llangefni a chychwyn ar y gwaith o ddatblygu safle Wrecsam (£5miliwn allan o gyfanswm o £7miliwn). Mae’r gwaith adeiladu yn Llangefni yn mynd yn ei flaen yn dda a disgwylir i’r orsaf newydd fod yn barod i’w defnyddio erbyn mis Rhagfyr. Mae’r Cynllun Busnes ar gyfer Wrecsam wedi’i gytuno a byddwn yn dechrau gwario’r arian unwaith y byddwn wedi prynu safle.

4.3 **Cerbydau ac Offer –** Y gwir wariant ar gerbydau yw £0.160miliwn yn erbyn cyllideb o £2.1miliwn, ond mae gwerth £0.4miliwn o gerbydau/offer wedi’u harchebu.

4.4 **TG ac Offer Cyfathrebu –** Mae’r Rhaglen Adnewyddu yn cael ei hadolygu er mwyn asesu os gellir lleihau’r costau refeniw. Mae’r penderfyniadau terfynol ynghylch a fydd CAD a System Rheoli’r Ganolfan Alwadau yn cael eu hadnewyddu yn ddibynnol ar drafodaethau ynghylch fformat y Ganolfan Alwadau yn y dyfodol.

# EITEM RHAGLEN 7a

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Panel Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| **DYDDIAD:** | 20 Medi 2013 |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogi) – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| **TESTUN:** | Crynodeb o Gwynion a Dderbyniwyd |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Darparu crynodeb i Banel Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru o'r cwynion a dderbyniwyd hyd yma.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Cymeradwyodd Panel Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru'r Weithdrefn Gwyno yn ei gyfarfod ar 4 Mehefin 2013.

2.2 Mae gan Banel Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru gyfrifoldebau statudol ynglŷn â delio â rhai cwynion a wneir yn erbyn Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Dirprwy Comisiynydd Heddlu a Throseddu, a phenderfynu ynglŷn â'r cwynion hynny. Mae'r Panel wedi cytuno i ddirprwyo ei swyddogaethau i Gyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogi) Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, a rhaid iddo ef ymgynghori â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd ac un Aelod Annibynnol wrth bennu'r math o gwynion a dderbynnir, a'r strategaeth ar gyfer rheoli cwynion i'w datrys yn lleol a'r penderfyniad terfynol ynglŷn â'r cwynion.

2.3 Yn Atodiad 1 ceir crynodeb o'r cwynion a dderbyniwyd hyd yma, sydd hefyd yn cynnwys y dyddiad y derbyniwyd hwy, categori'r gŵyn a'r camau a gymerwyd.

2.4 O safbwynt y cwynion a dderbyniwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, bydd y Cyfarwyddwr Strategol (CBSC) a Phrif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn llunio proses ar gyfer rheoli cwynion y gellir eu cofnodi.

## 3. ARGYMHELLION / DEWISIADAU

3.1 Bod y Panel yn nodi'r cwynion a dderbyniwyd a'r camau a gymerwyd i ddatrys y cwynion.

## 4. GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Mae gan Banel Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru gyfrifoldebau statudol ynglŷn â delio â rhai cwynion a wneir yn erbyn Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu, a phenderfynu ynglŷn â'r cwynion hynny. Mae'r Panel wedi cytuno i ddirprwyo ei swyddogaethau i Gyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogi) Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, a rhaid iddo ef ymgynghori â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd ac un Aelod Annibynnol wrth bennu'r math o gwynion a dderbynnir, a'r strategaeth ar gyfer rheoli cwynion i'w datrys yn lleol a'r penderfyniad terfynol ynglŷn â'r cwynion

4.2 Mae tri math o gŵyn:

Cwyn - cwyn gyffredinol am y Comisiynydd Heddlu a Throseddu neu'r Dirprwy Comisiynydd Heddlu a Throseddu nad yw'n Fater Ymddygiad nac yn Gŵyn Ddifrifol, nac yn gŵyn a gyfeirir i sylw'r Panel gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC) neu heddlu. Mae'r Panel yn gyfrifol am ddatys y cwynion hyn yn anffurfiol.

Mater Ymddygiad - a mater lle mae awgrym (boed o'r amgylchiadau neu fel arall) y gallai Comisiynydd Heddlu a Throseddu a/neu'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu fod wedi cyflawni trosedd. Gall Materion Ymddygiad godi heb i gŵyn gael ei gwneud (er enghraifft, straeon yn y wasg). Rhaid i Banel Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru hysbysu'r IPCC ynghylch Materion Ymddygiad. Mae'r IPCC yn gyfrifol am ystyried unrhyw Fater Ymddygiad.

Cwyn Ddifrifol - cwyn am ymddygiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu neu'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu, sy'n gyfwerth neu'n gysylltiedig â, neu'n ymddangos yn gyfwerth neu'n gysylltiedig â chomisiynu trosedd. Rhaid i Banel Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru hysbysu'r IPCC ynghylch Materion Ymddygiad. Mae'r IPCC yn gyfrifol am ystyried unrhyw Fater Ymddygiad.

4.3 Bydd y Cyfarwyddwr Strategol yn ymgynghori â'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd ac un Aelod Annibynnol i bennu'r math o gŵyn ydi hi; sef cwyn i'w datrys yn lleol gan y Panel neu a ddylid ystyried y gŵyn

fel ‘Mater Ymddygiad’ neu ‘Gŵyn Ddifrifol’ a’i chyfeirio i sylw’r IPCC i benderfynu yn ei chylch.

4.4 Os bydd y gŵyn yn cael ei hystyried yn gŵyn y dylid ei datrys yn lleol (yn gyfan gwbl neu’n rhannol) bydd yr achwynydd yn cael ei hysbysu o’r ffaith honno ac yn cael esboniad o’r camau y mae’r Panel yn bwriadu eu cymryd. Yn yr un modd, os bydd y gŵyn yn cael ei hystyried yn ‘Fater Ymddygiad’ neu’n ‘Gŵyn Ddifrifol’ bydd yn cael ei chyfeirio i sylw’r IPCC er mwyn penderfynu yn ei chylch a bydd yr achwynydd yn cael ei hysbysu.

## 5. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION / DEWISIADAU

5.1 Hysbysu Aelodau o’r mathau o gwynion a dderbyniwyd.

# Complaints Received by the North Wales Police and Crime Panel

| | Date Compaint Received | Complaint Category | Complaint Type |
|---|---|---|---|
| | 07/03/13 | Commissioner | Conduct Matter |

**Details of Complaint**

That Winston Roddick CB QC was not entitled to stand for election as the North Wales Police and Crime Commissioner because he did not qualify in accordance with appropriate legislation

**Action**

Referred to IPCC

**Resolution**

Awaiting response from IPCC

| | Date Compaint Received | Complaint Category | Complaint Type |
|---|---|---|---|
| | 03/03/13 | Commissioner | General |

**Details of Complaint**

That Winston Roddick CB QC had a dismissive attitude to a complaint made about the Chief Constable of the North Wales Police

**Action**

Referred to Panel

**Resolution**

IPCC have referred back to Panel for local resolution

| | Date Compaint Received | Complaint Category | Complaint Type |
|---|---|---|---|
| | 16/07/13 | Commissioner | Conduct Matter |

**Details of Complaint**

That Winston Roddick CB QC failed to notify the ICO that he was processing personal information from the date that he took up office on 22 November 2012.

**Action**

Referred to IPCC

**Resolution**

IPPC have referred back to Panel

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

## Y RHAGLEN WAITH I'R DYFODOL

| | |
|---|---|
| Contact Officer: | Dawn Hughes |
| | Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Bodlondeb<br>Conwy<br>LL28 5NF |
| E-bost: | dawn.hughes@conwy.gov.uk |
| Ffon: | 01492 576061 |

EITEM RHAGLEN 7b

| Dyddiad | Testun | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|
| **Dydd Gwener, 20 Medi 2013** | **Diweddariad Cyfnodol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd**<br>Derbyn diweddariad ynglŷn â gwaith y Comisiynydd ers y cyfarfod diwethaf | Winston Roddick, Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **Dydd Gwener, 20 Medi 2013** | **Gwrandawiad Cadarnhau ar gyfer Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd**<br>Adolygu'r penodiad bwriedig sydd i'w wneud gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd i swydd Dirprwy iddo. | Winston Roddick, Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **Dydd Gwener, 20 Medi 2013**<br><br>**Dydd Llun, 11 Tach 2013**<br><br>**Dydd Llun, 17 Maw 2014** | **Cynllun yr Heddlu a Throsedd - Adolygiad Cynydd**<br>Adolygu'r cynydd yng nghyflawniad Cynllun yr Heddlu a Throsedd:<br><br>11/09/13 - Chwarter 1<br>11/11/13 - Chwarter 2<br>17/03/14 - Chwarter 3 | Winston Roddick, Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **Dydd Gwener, 20 Medi 2013** | **Gweithdrefn Gwynion**<br>Ystyried gweithdrefn gwynion briodol ar gyfer Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. | Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogi)<br>ken.finch@conwy.gov.uk |
| **Dydd Llun, 11 Tach 2013** | **Cyflwyniad gan y Prif Gwnstabl ar ddyfodol plismona yng Ngogledd Cymru** | |
| **Dydd Llun, 16 Rhag 2013** | **Praesept Bwriedig 2014/15**<br>Ystyried y praesept bwriedig ar gyfer 2014/15<br><br>*(Caiff dyddiad y cyfarfod hwn ei osod yn derfynol yn dilyn cadarnhau'r amserlen ar gyfer sefydlu praesept 2014/15)* | Winston Roddick, Comisiynydd Heddlu a Throsedd |

| Date | Subject | Responsible Officer (including e-mail address) |
| --- | --- | --- |
| **Dydd Llun, 16 Rhag 2013** | **Cyllideb Ddraft ar gyfer y Gwasanaeth Heddlu ar gyfer 2014/15**<br>Ystyried y gyllideb ar gyfer y Gwasanaeth Heddlu ar gyfer 2014/15 | Winston Roddick, Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **Dydd Llun, 16 Rhag 2013** | **Cyllideb Ddraft ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2014/15**<br>Ystyried y gyllideb ddrafft ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2014/15. | Winston Roddick, Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **Eitemau i'r dyfodol** | | |
| **Dydd Mawrth, 4 Meh 2013** | **Hyfforddi a Datblygu Aelodau**<br>Gofynnir i Aelodau ystyried pa hyfforddiant a datblygu y byddent yn dymuno ei dderbyn. Nid yw'r rhestr ganlynol yn un gynhwysfawr, ond mae'n cynnig dewisiadau hyfforddi i'w hystyried:<br><br>• Cyllid yr Heddlu, gan gynnwys gosod y praesept<br>• Swyddogaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd<br>• Rheoli Perfformiad yr Heddlu<br>• Gofynion Plismona Strategol<br>• Cwynion<br>• Partneriaethau Diogelwch Cymunedol<br>• Cydweithredu<br>• Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol<br>• Penodiadau | Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogi)<br>ken.finch@conwy.gov.uk |